ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

# sut i'w cynnal... GWERSYLLOEDD/CLYBIAU PLANT

Mae gwersylloedd a chlybiau plant wedi'u cynllunio i ysbrydoli a chymell plant i ddysgu. P'un a yw'r thema'n dechnoleg, iaith, celf neu wyddoniaeth, maent yn bwysig wrth gynnig cyfle strwythuredig i blant ffynnu...gan alluogi'r plant i fod yn annibynnol ac yn hunanhyderus, wrth gymdeithasu, dysgu sgiliau newydd a chael gwybodaeth.

## * Ein Prosiect Ysgol Haf Eco Ynni...

Datblygwyd yr ysgol haf 'Ysgol Ynni' gan Arloesi Gwynedd Wledig gyda'r nod o annog plant rhwng 8 a 12 oed i gymryd diddordeb mewn ynni adnewyddadwy a'r agenda carbon isel - gyda phwyslais ar ynni hydro, datblygu dealltwriaeth y plant o gyd-destun hanesyddol cynhyrchu ynni lleol, a chynyddu eu hymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o brosiectau sy'n cael eu datblygu yng Ngwynedd ar hyn o bryd.

Mae'r agenda carbon isel yn ymwneud â defnyddio llai o ynni (gan allyrru llai o garbon o ganlyniad) a chynhyrchu'r ynni a ddefnyddiwn o ffynonellau adnewyddadwy neu gynaliadwy. Mae gwella dealltwriaeth pobl leol o'r agenda carbon isel ac amlygu ein rolau personol wrth ymdrin â'r materion hyn yn allweddol i sicrhau newid cadarnhaol ar raddfa fyd-eang.

Treialodd yr 'Ysgol Ynni' fodel o redeg sesiynau ynni gwyrdd i blant ifanc mewn cymunedau gwledig, mewn ardal ddaearyddol fechan i ddechrau, gan anelu at gynyddu llythrennedd ynni plant yng nghyd-destun ynni lleol, dangos twf yn y sector ynni adnewyddadwy, ac amlygu cyfleoedd gyrfa yn y sector i'r dyfodol.

Ynni
YSGOL YNNI



"Y nod oedd addysgu'r plant am ynni adnewyddadwy, ond hefyd sut i weithio mewn tîm a dysgu sgiliau newydd. Dros misoedd yr haf, cymerodd plant yr Ysgol Ynni ran mewn gweithgareddau cyffrous i ddysgu mwy am wyddoniaeth ynni adnewyddadwy."

RHIAN HUGHES
SWYDDOG ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

Cafodd gwahanol weithgareddau eu peilota gyda'r plant yn yr ysgolion haf er mwyn asesu eu llwyddiant o ran creu diddordeb, dal eu sylw a chynhyrchu brwdfrydedd parhaus am y pwnc a oedd yn cael ei gyflwyno. ✓





Nod y cynllun peilot yw creu ysgolion haf yn y dyfodol mewn ardaloedd eraill yng Ngwynedd - ysgolion 'Ysgol Ynni' pellach, yn ogystal ag arallgyfeirio i gysyniadau newydd ar gyfer ysgolion haf â thema addysg. ✓ 10/10

peilota...dysgu...rhannu

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG
MENTER MÔN

DYDDIAD DIWEDD Y PROSIECT Medi 2016
RHEOLWR Y PROSIECT Rhian Hughes

ARLOESI GWYNEDD WLEDIG

# camau i gael... GWERSYLLOEDD / CLYBIAU PLANT llwyddiannus

## 1. Yn ôl i'r Ysgol

- Cynhaliwyd ysgol haf 'Ysgol Ynni' yn ystod gwyliau haf yr ysgol yn 2016 a 2017. Roedd tua 6 sesiwn bob haf, dros gyfnod o 6 wythnos, ynghyd â pheilot undydd yn 2018.

*Mynychodd 104 o blant yr Ysgol Ynni yn 2016, felly mae hyn yn dangos potensial enfawr i'r dyfodol ac i glybiau neu ysgolion haf eraill...*

- Hyrwyddwyd yr Ysgol Ynni yn gyhoeddus trwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy ysgolion lleol.
- Cyflogwyd person ifanc lleol dros yr haf i gynorthwyo i gydlynu'r sesiynau, fel ffordd o gynnig mwy o brofiad yn y gymuned.



Sganiwch i wylio ein ffilm am y prosiect Ysgol Ynni



## 2. Rhestr Wirio Sefydlu...

**SEFYDLU EICH YSGOL HAF...**

- *Sefydlu thema graidd:* Mae angen i hon greu diddordeb a galw. Yn ddelfrydol, mae angen enw a brand da i gyfathrebu'r cynnig i ddarpar rieni a mynychwyr.
- *Strwythurwch y busnes:* A fydd eich gwersyll neu'ch clwb yn elusen, menter gymdeithasol, neu'n fusnes? Trefnwch y dogfennau a'r gwaith papur cywir yn unol â hynny.
- *Ymchwilio i gyllid:* Darganfyddwch a ydych yn gymwys am unrhyw gyllid i'ch helpu i sefydlu eich hun.
- *Gwnewch gais am gofrestriad Ofsted:* Sefydlwch a oes angen cofrestru'ch clwb gydag Ofsted - os felly, gall y broses ymgeisio gymryd rhwng 12 a 25 wythnos, yn dibynnu ar y gofrestr.
- *Cynllunio lleoliadau addas:* Ystyriwch beth sydd ei angen arnoch i redeg y digwyddiadau a dod o hyd i'r lleoliad gorau i gyflawni hyn.
- *Rhannu'r rolau:* Faint o staff sydd eu hangen, beth fydd eu rolau a pha gymwysterau neu hyfforddiant sydd eu hangen?
- *Offer:* Ystyriwch y costau ac archebwch unrhyw offer sydd ei angen.
- *Gwiriwch y gwaith papur:* Sicrhewch fod yr holl bolisïau, gweithdrefnau a gwaith papur gofynnol yn ei le ar gyfer eich math o ysgol haf neu glwb haf.
- Mae'r wefan hon yn rhoi mwy o fanylion ar yr holl ofynion a restrir... https://www.outofschoolalliance.co.uk

## 3. Cyfleoedd yn y Dyfodol...

- Mae cyfle enfawr i fusnesau fod yn gysylltiedig ag ysgol haf – e.e. cwmnïau technoleg sy'n rhedeg clybiau codio, cynhyrchwyr bwyd sy'n cynnig ysgolion haf coginio, orielau sy'n trefnu gweithdai celf perfformio, ac ati...
- Mae deunyddiau Ysgol Ynni, gan gynnwys cynlluniau gwersi a logos, ar gael i'w defnyddio ar gyfer sefydlu 'Ysgol Ynni'.
- Yr uchelgais ar gyfer 2019 yw trefnu Gŵyl 4/5 Diwrnod, gyda mwy o bwyslais ar beirianneg. Mae gan nifer o golegau a sefydliadau megis STEM Cymru ac EESW gyfarpar diddorol ar gael ar gyfer y math hwn o ddefnydd.



**Awgrym 1:** Cafodd y sesiynau eu strwythuro gyda chymysgedd o adeiladu tîm, datrys problemau a gweithgareddau awyr agored. Roedd y gweithgareddau awyr agored yn rhan boblogaidd a chofiadwy o'r ysgol haf. Mae angen i unrhyw weithgareddau awyr agored fod yn addas i bob tywydd, heb ddibynnu gormod ar gael haul! Yn ddelfrydol, roedd gweithgareddau y gellir eu gwneud fel grŵp cyfan yn llawer mwy llwyddiannus na gweithgareddau sydd angen ciw ac 'un ar y tro'!

**Awgrym 2:** Roedd gan athrawon ddylanwad mawr wrth hyrwyddo'r ysgol haf i'w disgyblion, felly gall cysylltiadau personol da gydag ysgolion fod yn effeithiol iawn. Os ydych chi'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gysylltu â darpar gyfranogwyr, yna mae angen proses gofrestru glir i sicrhau ysgol haf lawn.

am ragor o wybodaeth am y prosiect hwn ewch i

www.arloesigwyneddwledig.com
@ArloesiGwyneddWledig
@ArloesiGwynedd


CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
NDA Nuclear Decommissioning Authority
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government